Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 17 Mehefin 2015

10.30 – 3.00

Prifysgol Abertawe

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Andrew Green (Cadeirydd) Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr (o 11.15) Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (tan 1.00) Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (tan 2.30) Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (tan 2.00) Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)
Sylwedyddion:	Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC Olivia Jones, Prifysgolion Cymru Kimberley Meringolo, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth
Ymddiheuriadau:	Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau ac yn arbennig i Gwilym Dyfri Jones fel aelod newydd o'r Bwrdd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriad i'w gynnwys yn y cofnodion. 1.3 Estynnwyd llongyfarchiadau i Andrew Green, Cadeirydd, ar ddyfarnu gradd Doethur er anrhydedd iddo gan y Brifysgol Agored ar 12 Mehefin 2015.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd dau aelod ac un sylwedydd ddiddordeb yn yr eitem ar Neuadd Pantycelyn a datganodd un aelod ddiddordeb ar eitem Astudiaethau Cyfieithu.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 4 Mawrth 2015	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2015.		
4. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod arbennig 24 Mawrth 2015	4.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2015.		

5. Gohebiaeth (BC/15/03/5a) **(BC/15/03/5b)**	5.1 Nodwyd llythyr gorchwyl y Gweinidog Addysg i'r Cyngor Cyllido (CCAUC). 5.2 Derbyniwyd llythyr Grant CCAUC i'r Coleg.		
6. Materion Cyfansoddiadol	6.1 Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod o Weithgor y Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2015 o dan gadeiryddiaeth yr Athro Iwan Davies. 6.2 Derbyniwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd ar newid geiriad Amcanion y Coleg yn y Cyfansoddiad a gymeradwywyd gan aelodau'r Llys. Nodwyd mai'r geiriad newydd yw: Amcan y Coleg fydd, er lles y cyhoedd, hybu dysg a gwybodaeth drwy: (a) hyrwyddo, cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a iaith Gymraeg a gweithgareddau perthynol mewn addysg uwch, sefydliadau addysg bellach ac addysg barhaus yng Nghymru, gan weithio gyda sefydliadau addysg uwch, addysg bellach, ysgolion a sefydliadau partner yng Nghymru a thrwyddynt; a (b) hyrwyddo, cynnal, datblygu a goruchwylio dysgu, caffael, gwella a gloywi sgiliau cyfathrebu iaith Gymraeg i bobl yn gyffredinol gyda sefydliadau addas yng Nghymru a mannau eraill. 6.4 <u>Penodi Cyfarwyddwyr</u> Ar gyfer yr eitem hon gadawodd Gwilym Dyfri Jones ac Ieuan Wyn yr ystafell. Ystyriwyd a derbyniwyd yr argymhelliad i benodi Gwilym Dyfri Jones fel cyfarwyddwr sector addysg uwch, yn lle'r Athro Catrin Thomas, am gyfnod o bedair blynedd tan 10 Mai 2019, ac ail-benodi Ieuan Wyn fel cyfarwyddwr annibynnol, am gyfnod o bedair blynedd tan 31 Mawrth 2019. Ar y pwynt hwn dychwelodd Gwilym Dyfri Jones ac Ieuan Wyn i'r cyfarfod.		

7. Materion y Cadeirydd	7.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn nodi y byddai (i) cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar 8 Gorffennaf, (ii) yn nodi bod ansicrwydd yn parhau ynghylch y model cyllido gan CCAUC ond bod y Llywodraeth wedi ymestyn cyllideb yr ysgoloriaethau israddedig am gyfnod pellach a (iii) bod y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd wedi cyfarfod gydag Amanda Wilkinson, Prif Weithredwr Prifysgolion Cymru, ar 16 Mehefin. 7.2 Nodwyd ansicrwydd y sefyllfa gyllidol a'r bwriad i barhau'r ddeialog gyda'r sefydliadau addysg uwch ynghylch y ffaith na fydd y Coleg, ar hyn o bryd, yn gallu ymrwymo unrhyw gefnogaeth yn achos swyddi cynllun staffio lle daw'r pum mlynedd gyntaf o gyllido i ben yn 2016.		
8. Adroddiad y Prif Weithredwr **(BC/15/03/08)**	8.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr a diweddariadau ar faterion perthnasol yn codi o gyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 4 Mawrth 2015. 8.2.1 <u>Materion Strategol</u>. Cafwyd adroddiad pellach gan y Prif Weithredwr yn ymhelaethu ar faterion strategol gan gynnwys: 8.2.2 <u>Cynllunio hirdymor y Coleg</u>. Ymysg y materion a nodwyd yr oedd y canlynol: • Mae cyllideb ar gyfer y Coleg wedi'i gosod tan 2016/17 ond mae ansicrwydd wedi hynny. • Mae ansicrwydd hefyd ynghylch cyllideb y Cynllun Staffio Academaidd a'r potensial ar gyfer peilota modelau cyllido newydd. • Derbyniwyd cadarnhad bod cyllideb y cynlluniau ysgoloriaethau israddedig yn cael ei hymestyn am dair blynedd arall, hyd at 2018/19. • Trefnwyd rhwng y Coleg a'r Gweinidog Iechyd i drafod yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg wrth gynllunio hyfforddiant		

	ym meysydd iechyd. 8.2.3 Cynlluniau academaidd. Adroddwyd bod y Bwrdd Academaidd wedi gosod trefniadau ar gyfer adolygu cynlluniau pynciol. Nodwyd bod mwy o bwyslais yn y cynlluniau newydd ar adnabod blaenoriaethau buddsoddi drwy'r Coleg. 8.2.4 Gwerthusiad o'r Coleg (Oldbell). Adroddwyd bod y camau i'w gweithredu yn deillio o'r Gwerthusiad wedi'u gweithredu'n llawn. Yn deillio o'r Gwerthusiad comisiynwyd Dylan Bryn Roberts i gynnal adolygiad o gynlluniau ysgoloriaethau israddedig y Coleg. Adroddir ar yr argymhellion wedi derbyn yr adroddiad terfynol. 8.2.5 Targedau. Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar sefyllfa gyfredol 2013/14. Diolchwyd i swyddogion CCAUC am eu cydweithrediad yn sicrhau data manwl. Nodwyd bod niferoedd myfyrwyr sy'n astudio 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi ers 2011 o 4,300 i 4,900 yn 2013/14 a'r niferoedd myfyrwyr sy'n astudio 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi ers 2011 o 2,200 i 2,450 yn 2013/14. Nodwyd y byddai'r adran gyfathrebu yn manteisio ar y newydd da hwn.		
Atodiad 8/1	8.3 Cynllun Gweithredu'r Coleg 2014/15. Cafwyd diweddariad ar y cynllun ar gyfer 2014/15 a thrafodaeth fer. 8.4 Adolygiad Diamond. Adroddwyd bod y Coleg wedi cyflwyno ymateb llawn a manwl i'r ymgynghoriad hwn. 8.5 Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. Adroddwyd y cynhelir cynllun peilot ar draws y canolfannau hyfforddi athrawon yn ystod 2015/16 gyda chyllid gan CCAUC. Nodwyd y penodwyd Dr Elin Meek yn Brif Arholwr ar gyfer cynllun peilot y Dystysgrif Cymhwysedd. 8.6 Ymchwiliad Safonau. Adroddwyd y cynhaliwyd cyfarfod gyda	Ychwanegu at y Cynllun Gweithredu	Haf 2015

	Chomisiynydd y Gymraeg i drafod perthnasedd y safonau i waith y Coleg ar 23 Ebrill 2015. Nodwyd bod y Comisiynydd yn canolbwyntio ar wasanaethau Cymraeg sefydliadau yn hytrach na darpariaeth Gymraeg. 8.7 Penodi Cyfreithwyr. Adroddwyd y penodwyd Capital Law Cyf. fel darparwyr gwasanaethau cyfreithiol i'r Coleg am y cyfnod 1 Awst 2015 tan 31 Gorffennaf 2018. 8.8 Risgiau a chyfleoedd. Nodwyd yr adroddiad a'r risg parhaol ynghylch ddyfodol cyllidol y Coleg wedi 2016/17. Nodwyd y bydd y Bwrdd yn derbyn y Gofrestr lawn yng nghyfarfod Tachwedd 2015. 8.9 Adroddiadau ar weithgareddau (Tachwedd 2014 - Mehefin 2015): Derbyniwyd rhestr, er gwybodaeth, o weithgareddau a chyfarfodydd a fynychwyd gan y Prif Weithredwr yn ystod y cyfnod 1 Tachwedd 2014 a 3 Mehefin 2015.		
9. Materion Staffio	9.1.1 Adroddwyd gan yr Ysgrifennydd bod y Pwyllgor Staffio wedi trafod a chymeradwyo trefniadau dirprwyo ar gyfer swyddi allweddol, gan gynnwys y Prif Weithredwr, pe byddai'r swyddogion yn absennol yn annisgwyl. 9.1.2 Nodwyd y bydd y Coleg yn parhau i ystyried ei sefyllfa ariannol cyn llenwi unrhyw swyddi gwag gydag ystyriaeth i ail-gyflenwi swyddi'n fewnol neu brynu adnoddau allanol. 9.1.3 Nodwyd bod y pwyllgor wedi trafod swydd ddisgrifiad ac o ganlyniad wedi cynyddu gradd un swydd yn gymesur â chynnydd sylweddol mewn cyfrifoldebau. 9.1.4 Nodwyd bod y Pwyllgor Staffio wedi cytuno ar bolisi Cyfle Cyfartal, ac y byddai'r Polisi yn cael ei gylchredeg i'r Cyfarwyddwyr maes o law.	Ysgrifennydd i gylchredeg y Polisi Cyfle Cyfartal	Erbyn cyfarfod y Bwrdd 25 Tachwedd 2015

10. Materion Cyllid **(BC/15/03/10a)** **(BC/15/03/10b)**	10.1.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar Gyllideb y Coleg ar gyfer 2015/16. 10.1.2 Nodwyd bod CCAUC wedi cytuno y dylai'r Coleg sicrhau cronfa wrth gefn i baratoi ar gyfer y cyfnod ansicr y tu hwnt i 2016/17. 10.1.3 Cymeradwywyd y Gyllideb gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. 10.2.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr ar ffynonellau cyllido ar gyfer y Coleg mewn perthynas â chyllido yn y dyfodol. 10.2.2 Trafodwyd ffyrdd o greu incwm o ffynonellau gwahanol, gan fod rhywfaint o ansicrwydd am lefel cyllideb y Coleg ar ôl 2016/17. Cytunodd y Cyfarwyddwyr y dylid edrych ar ffyrdd o ddenu incwm o ffynonellau gwahanol ac mae hyn yn unol â llythyr grant CCAUC i'r Coleg ar gyfer 2015/16. Bydd y swyddogion yn paratoi papur ar hyn i'w drafod ymhellach mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn 2015/16. 10.3 Yn ystod y drafodaeth cytunwyd y dylai'r Bwrdd Academaidd drafod, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, prosiectau y gellid gwneud ceisiadau ariannol amdanynt. 10.4 Yn ystod y drafodaeth, yn ogystal, nodwyd bod modd i gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr eraill rhoi arian drwy Gronfa William Salesbury.		
11. Pwyllgor Archwilio a Risg **(BC/15/03/11a/b)**	11.1 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Mawrth a'r 19 Mai 2015 a chafwyd adroddiad llafar ar y cyfarfodydd gan y Cadeirydd, Geraint James. 11.2 Ystyriwyd addasiadau i'r Cylch Gorchwyl yn dilyn argymhellion yr archwilwyr mewnol. Derbyniwyd y Cylch Gorchwyl gan gynnwys sylwadau pellach.	Diwygio'r Cylch Gorchwyl	Haf 2015

	11.3 Adroddwyd ar benodiadau Gareth Eyres (aelod cyfetholedig) a Jacqui Hare (aelod sefydliadol) a'r angen yn sgil newidiadau i'r Cylch Gorchwyl i benodi aelod cyfetholedig pellach.		
12. Neuadd Pantycelyn **(BC/15/03/12)**	12.2 Cafwyd cyflwyniad gan Beth Button, cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr, ar y papur ar gyflwynwyd ganddi o'r enw *Pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o gau Neuadd Breswyl Pantycelyn*. 12.2 Nodwyd y pryder a fynegwyd yn y papur a chytunwyd i gynnig yr Athro Iwan Davies ar eiriad datganiad fel a ganlyn: 'Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol - wedi derbyn a thrafod papur gan y cyfarwyddwr sy'n cynrychioli myfyrwyr o'r enw *Pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o gau Neuadd Breswyl Pantycelyn,* - yn nodi'r pryder a fynegir yn y papur, - yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu awyrgylch a phrofiad addas i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg ym mhob prifysgol yng Nghymru'.		
13. Addysg Bellach **(BC/15/03/13)**	13.1 Cafwyd cyflwyniad gan Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd, ar y cydweithio rhwng y Coleg a'r sector addysg bellach gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer 2015/16. 13.2 Derbyniwyd a chytunwyd i'r argymhellion a amlinellir isod: bod darpariaeth addysg bellach yn cael ei chynnwys yng nghynlluniau pwnc y Coleg ac mewn meysydd galwedigaethol a'n cynnig cyfleoedd ar gyfer cyd-gynllunio a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau y dylid adeiladu ar y cydweithio sydd eisoes wedi cychwyn ym maes datblygu staff ac y dylid cynnal cynhadledd neu seminar yn ystod 2015/16		

	bod ystyriaeth yn cael ei roi i fodelau posibl o ran cydweithio rhwng y sectorau addysg uwch ac addysg bellach mewn perthynas â chapasiti staffio bod trafodaeth bellach yn digwydd i sicrhau bod myfyrwyr yn y sefydliadau addysg bellach, a'r rhai sy'n dilyn darpariaeth addysg uwch mewn sefydliad addysg bellach, yn cael cyfle llawn i ymwneud â gwaith y Coleg.		
14. Materion Academaidd	14.1.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 13 Mai 2015. 14.1.2 Adroddwyd bod cynrychiolwyr myfyrwyr wedi'u hethol i'r Bwrdd Academaidd ar gyfer 2015/16 a bod aelodaeth yn newid yn sgil newid swyddi ac ymddeoliad. Nodwyd yn arbennig cyfraniad Dr Siân Wyn Siencyn at waith y Bwrdd Academaidd. 14.1.3 Cafwyd crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y cynlluniau pynciol sydd wedi eu cytuno gan y Bwrdd Academaidd. Nodwyd bod y cynlluniau pynciol ym meysydd Busnes, y Gyfraith ac Ieithoedd Modern eisoes wedi'u hadolygu ac mai meysydd Chwaraeon, Diwydiannau Creadigol a Gwleidyddiaeth fyddai'n cael eu hadolygu cyn diwedd 2015. Nodwyd bod mwy o bwyslais yn y cynlluniau newydd ar adnabod blaenoriaethau buddsoddi drwy'r Coleg yn ogystal â thalu sylw at brofiad y myfyriwr. 14.1.4 Cafwyd diweddariad ar y cynllun cydweithio cenedlaethol ar gyfer Ieithoedd Modern, sydd wedi penodi cydlynydd cenedlaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor. 14.1.5 Adroddwyd y bu trafodaethau ynghylch y Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil; a		

	Strategaeth Ymchwil y Coleg.		
	14.1.6 Adroddodd y Deon ei fod wedi cwblhau ei ymweliadau blynyddol â'r sefydliadau gan gynnwys ymweliad cyntaf â Phrifysgol Glyndŵr.		
	14.1.7 Diolchwyd i'r Deon am ei waith a'r adroddiad cynhwysfawr.		
(BC/15/03/14a)	14.2.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr ar brosiectau cydweithredol ac yn benodol y camau ar gyfer gweithredu prosiectau cenedlaethol. Diolchwyd i'r Pwyllgor Cydweithio Academaidd, a'u haelodau sy'n arbenigwyr ym maes dilysu yn eu sefydliadau, am eu gwaith yn paratoi'r camau.		
	14.2.2 Derbyniwyd a chytunwyd ar y weithdrefn barhaol ar gyfer gweithredu a lleoli prosiectau cenedlaethol a chydweithredol.		
(BC/15/03/14b)	14.3.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr ar y prosiect strategol cynllun ôlraddedig mewn astudiaethau cyfieithu proffesiynol. Nodwyd y cymhlethdodau a fu'n ceisio hwyluso'r prosiect a diolchwyd i'r Athro Iwan Davies, yr Athro Jerry Hunter a'r Dr Rhodri Llwyd Morgan am eu cymorth gyda'r trafodaethau.		
	14.3.2 Derbyniwyd a chytunwyd i'r argymhellion a amlinellwyd yn y papur ar astudiaethau cyfieithu.		
(BC/15/03/14c)	14.4.1 Cafwyd cyflwyniad gan Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd, ar argymhellion y panel ymgynghorol ar ddyfarniadau'r Gronfa Datblygiadau Strategol.		
	14.4.2 Yn dilyn trafodaeth cadarnhawyd parhad y gweithgareddau cenedlaethol a'r prosiectau cyfredol i'w parhau i'w cyllido yn 2015/16 yn atodiad A.		
	14.4.3 Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y prosiectau newydd yr argymhellwyd i'w cyllido o Gronfa 2014/15 yn atodiad B.		

15. Ymchwil a Chyhoeddi **(BC/15/03/15a)** **(BC/15/03/15b)**	Nododd yr Ysgrifennydd nad oedd cworwm ar gyfer y cyfarfod o hyn ymlaen wedi i'r Athro Iwan Davies a Dr Rhodri Llwyd Morgan adael y cyfarfod. 15.1.1 Cafwyd cyflwyniad gan yr Athro Jerry Hunter ar Strategaeth Ymchwil a Chyhoeddi'r Coleg. 15.1.2 Trafodwyd a derbyniwyd yr argymhellion a amlinellwyd yn y papur. 15.2.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar y rhyngberthynas rhwng y Coleg a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY/REF). 15.2.2 Trafodwyd y materion mewn perthynas â chanlyniadau FfRhY 2014 a derbyniwyd yr argymhellion a amlinellwyd yn y papur.	Ail-gyflwyno'r papurau ymchwil i'r Bwrdd yng nghyfarfod 25 Tachwedd 2015 er mwyn cymeradwyo gyda chworwm	
16. Eisteddfod Genedlaethol: y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg	16.1 Cafwyd cyflwyniad llafar gan yr Ysgrifennydd ar gais o'r Eisteddfod Genedlaethol i'r Coleg gyd-lynu'r Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg am dair blynedd gan ddechrau gydag Eisteddfod Sir Fynwy yn 2016. 16.2 Cytunodd y Cyfarwyddwyr y dylai'r swyddogion baratoi cytundeb gyda'r Eisteddfod a fyddai'n codi proffil y Coleg ac yn gyfle i gydweithio gyda'r sefydliadau addysg uwch ac ystod eang o bartneriaid eraill. 16.3 Nodwyd y byddai'r Coleg yn parhau i gadw ei bresenoldeb annibynnol ei hun ar y Maes.		
17. Gwobr Meredydd Evans	17.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar Wobr Meredydd Evans a ddyfernir yn yr Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf eleni, gyda chefnogaeth ei deulu ac er cof amdano. Bydd y wobr yn cydnabod cyfraniad myfyriwr sydd yn aelod		

	cyfredol o'r Coleg i'r bywyd a'r diwylliant Cymraeg, o fewn prifysgolion ac yn ehangach.		
18. Materion yn codi o gofnodion 4 Mawrth 2015	18.1 Eitem 12.7 - BA Perfformio. Adroddwyd y cynhaliwyd cyfarfod agored i drafod y gofidion a oedd gan y sefydliadau dan sylw ynghylch lleoliad y ddarpariaeth yng Nghaerdydd. 18.2 Eitem 13.2 - Cyngor y myfyrwyr. Nodwyd nad oedd modd cyflwyno papur ar ymgorffori Cyngor y Myfyrwyr â'r Coleg i'r cyfarfod hwn tan i'r Gweithgor Cyfansoddiadol drafod y mater.		
19. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr	19.1 Nid oedd unrhyw adroddiadau gan y Cyfarwyddwyr.		
20. UFA	20.1 Gwnaed cais gan Jacob Ellis, sylwedydd, i'r Coleg ystyried y posibilrwydd o greu cardiau aelodaeth i fyfyrwyr y Coleg.	Swyddogion i drafod â'r adran Gyfathrebu	Haf 2015
21. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	21.1 Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16 fel a ganlyn: • 25 Tachwedd 2015, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant • 3 Mawrth 2016, Prifysgol Caerdydd • 22 Mehefin 2016, Prifysgol Aberystwyth 21.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff Prifysgol Abertawe am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod. 21.3 Diolchwyd yn ogystal i Jacob Ellis am ei gyfraniad fel sylwedydd yn ystod ei gyfnod fel Swyddog Iaith, UCMC.		